# Adroddiad Arolygu

**Little Steps Childcare Centre Ltd**

**Bro Tawe**
**Ffordd Yr Afon**
**Ystradgynlais**
**SA9 1BU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Little Steps Childcare Centre Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Little Steps Childcare Centre Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 52 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg â Chymraeg achlysurol |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r feithrinfa hon yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn cael cynnig dewisiadau da ac yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda yn gyson, ac yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel, gan feithrin cysylltiadau cryf â staff y feithrinfa. Mae'r plant yn meithrin sgiliau annibyniaeth da iawn.

Mae staff y feithrinfa yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant yn gyson ac yn gwneud iddynt deimlo'n hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae staff y feithrinfa yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn. Maent yn cynllunio ac yn paratoi gweithgareddau, sy'n hyrwyddo annibyniaeth a chynnydd unigol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi rhoi mesurau cynhwysfawr ac effeithiol iawn ar waith sy'n creu amgylchedd diogel, a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant a'i fod yn eu galluogi i fanteisio ar amrywiaeth dda o adnoddau sy'n briodol o ran oedran a cham datblygiad dan do ac yn yr awyr agored er mwyn ysgogi dychymyg a diddordebau'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth arloesol ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn cynnal ac yn diweddaru polisïau, gweithdrefnau a chofnodion cynhwysfawr yn rheolaidd. Maent yn gwella'r gwasanaeth yn effeithlon ac yn gyson. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa brosesau recriwtio a threfniadau datblygiad proffesiynol effeithiol ar waith ar gyfer staff y feithrinfa. Mae'r partneriaethau a'r cysylltiadau yn ardderchog.

## Llesiant

Mae'r plant yn gyfathrebwyr da iawn. Maent yn mynegi eu hanghenion yn hyderus ar lafar ac ar ffurf ddieiriau. Mae'r plant ifanc yn mynegi eu hanghenion drwy roi eu breichiau o amgylch aelodau cyfarwydd o staff y feithrinfa er mwyn cael cysur ac yn gwenu ar aelodau cyfarwydd o'r staff. Mae'r plant hŷn yn mynegi eu dewisiadau drwy ddweud wrth y staff eu bod am gael mwy o fwyd, a thrwy sôn wrthynt pan na fyddant yn hoffi rhai bwydydd penodol a gynigir. Mae'r plant yn helpu eu hunain yn hyderus i adnoddau er mwyn cymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae corfforol a dychmygus yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau rhydd a hyderus yn ystod sesiynau chwarae rhydd. Maent yn helpu eu hunain i frwsys paent, treiciau a rhannau rhydd.

Mae'r plant wedi setlo ac yn fodlon eu byd. Maent yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni yn dda iawn ac mae ganddynt gydberthnasau cadarn â'u gweithwyr allweddol. Mae'r plant ifanc yn gwenu ac yn cofleidio staff y feithrinfa ar ôl dihuno o gwsg. Mae'r plant hŷn yn mynd at staff y feithrinfa i gael cymorth i greu rampiau a sleidiau.

Mae'r plant yn cael ymdeimlad da o gyflawniad a hunan-barch uchel o ganlyniad i ryngweithio'n gadarnhaol â staff y feithrinfa. Maent yn cynhyrfu'n lân ac yn hapus iawn pan fyddant yn cael sticeri am ysgrifennu eu henwau a chanmoliaeth am fwyta eu bwyd. Mae'r plant yn dathlu eu cyflawniadau pan fyddant yn llwyddo i greu rampiau ar gyfer eu ceir a'u sgwteri. Maent yn helpu ei gilydd i fynd ar y ceir bach ac yn dathlu cyflawniadau eu ffrindiau. Mae'r plant yn gwrtais tuag at staff y feithrinfa. Er enghraifft, maent yn diolch iddynt am gael mwy o reis a chyri i ginio. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn frwdfrydig ac yn cael hwyl wrth gwblhau tasgau a gweithgareddau. Maent yn mwynhau archwilio'r potiau plannu'n llawn mwd yn fawr ac yn gwneud defnydd da o'r gegin fwd er mwyn gwneud eu cacennau mwd. Mae'r plant yn gweiddi ac yn chwifio'n frwd wrth iddynt ddringo'r llong môr-ladron yn ystod gweithgaredd chwarae rôl awyr agored â'u ffrindiau. Mae'r plant ifanc yn chwerthin wrth iddynt fwynhau canu caneuon ffoneg â staff y feithrinfa.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Yn ystod cyfnod byrbryd y bore, mae'r plant yn defnyddio gefeilliau er mwyn helpu eu hunain i ffrwythau, ac mae rhai o'r plant yn rhoi menyn ar eu cramwyth eu hunain. Mae gorsafoedd dŵr ar gael i'r plant yn ystod cyfnodau chwarae awyr agored a dan do, ac yn ystod amser cinio. Yn ystod cyfnodau chwarae blêr yn yr awyr agored, mae'r plant yn helpu eu hunain i esgidiau glaw a ffedogau ac yn eu dychwelyd i'r mannau cywir. Mae'r plant, o oedran cynnar, yn defnyddio ffyrc i fwydo eu hunain yn ystod amser cinio.

## Gofal a Datblygiad

Mae staff y feithrinfa yn deall polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn cydymffurfio â'r canllawiau mesurau amddiffyn yn ystod pandemig COVID-19, gan ddefnyddio polisïau newydd ac asesiadau risg wedi'u diweddaru. Mae staff y feithrinfa yn dilyn trefniadau glanhau dyddiol ac yn cadw cofnodion dyddiol. Maent yn golchi eu dwylo cyn helpu'r plant yn ystod adegau bwyd ac yn sicrhau bod pob plentyn wedi golchi ei ddwylo cyn bwyta. Mae staff y feithrinfa yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau gan sicrhau bod arwynebeddau yn lân, newid cyfarpar diogelu personol (PPE) a golchi dwylo rhwng newid pob cewyn. Mae gan bob aelod o staff y feithrinfa, fwy neu lai, dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu ac maent yn gyfredol. Mae staff y feithrinfa yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant. Gwnaethant ddangos eu dealltwriaeth wrth drafod senarios posibl yn ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant. Mae trefniadau cadarn a diogel ar waith ar gyfer trosglwyddo'r plant i'w rhieni, ac mae staff y feithrinfa yn goruchwylio'r plant yn ofalus yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r staff yn deall y gweithdrefnau diogelwch i'w dilyn ac yn eu rhoi ar waith, a chaiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau. Fodd bynnag, cyn yr arolygiad, ni chafodd y gweithdrefnau hyn eu dilyn yn llawn yn ystod un achos ar ei ben ei hun wrth i'r plant gael eu casglu. Mae staff y feithrinfa yn siarad yn gadarnhaol am yr addasiadau diogelwch a wnaed ers yr achos hwn, ac maent yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus er budd y plant.  Caiff cofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth perthnasol eu cadw wedi'u llofnodi'n briodol. Mae staff y feithrinfa yn sicrhau y caiff unrhyw alergeddau ac anoddefiadau sydd gan y plant eu harddangos yn ardal y gegin.
Mae staff y feithrinfa yn deall y polisi ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol cyson ar waith ar gyfer y plant. Maent yn gwobrwyo'r plant â sticeri am fwyta'n dda ac am dynnu lluniau ac ysgrifennu geiriau ac enwau. Mae staff y feithrinfa yn canmol y plant am fod yn gwrtais gan ddweud "*Da iawn ti, cwrtais iawn!"* Maent yn dangos esiampl dda. Maent yn annog y plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' am y bwydydd a'r adnoddau a gânt. Mae staff y feithrinfa yn dangos parch tuag at y plant pan fyddant yn cwympo ac yn helpu'r plant pan fyddant yn ei chael hi'n anodd rhannu car bach. Mae staff y feithrinfa yn plygu i lawr i lefel y plant ac yn trafod y mater â'r plant yn dawel, gan ddefnyddio strategaethau i dynnu sylw'r plant ag adnoddau eraill i'w cadw'n hapus a'u diddanu.

Mae staff y feithrinfa yn meddu ar ddealltwriaeth a gwybodaeth dda am anghenion datblygiadol y plant.  Maent yn cynllunio yn ôl galluoedd y plant, gan wneud arsylwadau a'u defnyddio fel y camau nesaf ym mhrofiadau chwarae a dysgu'r plant. Mae staff y feithrinfa yn defnyddio eu gwaith cynllunio yn effeithiol ac yn ystyried syniadau'r plant wrth gynllunio ar gyfer gweithgareddau. Er enghraifft, caiff syniadau'r plant ar gyfer thema 'Pen-blwydd y Frenhines' eu harddangos, a chaiff y gweithgareddau eu cyflawni yn ystod yr wythnos. Mae staff y feithrinfa yn annog dwyieithrwydd. Maent yn defnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg ar lafar ym mhob rhan o'r feithrinfa, fel enwau anifeiliaid fferm a lliwiau.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant a diogelwch y plant. Yn ystod pandemig COVID-19, mae gorsafoedd ac arferion diheintio ychwanegol ar waith yn unol â pholisïau'r feithrinfa. Er enghraifft, nid yw'r rhieni yn dod i mewn i'r adeilad, ac mae'r staff yn gwisgo masgiau wrth gyfarch y rhieni a'r gwarcheidwaid. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi rhoi trefniadau glanhau effeithiol ar waith sy'n adlewyrchu arferion rheoli heintiau da. Maent yn diweddaru asesiadau risg cyffredinol, asesiadau risg tân a chofnodion cynnal a chadw cadarn yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r asesiad risg na'r polisi ar gyfer ceir a theithiau allan yn gynhwysfawr. Mae mynedfa'r feithrinfa yn ddiogel. Defnyddir system seiniwr ac mae staff y feithrinfa yn croesawu'r plant wrth y giatiau y tu allan i'r feithrinfa.

Mae'r feithrinfa yn groesawgar iawn ac yn arddangos gwaith y plant. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, gan ddarparu preifatrwydd ac urddas priodol i'r plant. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar yn addas ar gyfer pob oedran a cham datblygiad, ac mae digon o le i'r plant gymdeithasu a symud o gwmpas.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn trefnu'r adnoddau a'r teganau yn effeithiol. Maent yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a phob cam datblygiad er mwyn meithrin sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol drwy chwarae synhwyraidd, chwarae dychmygu a chreadigol, gweithgareddau byd bach, chwarae corfforol a chwarae rôl. Mae llyfrau Cymraeg a Saesneg ar gael i'r plant. Fodd bynnag, nid oes lluniau a labeli dwyieithog ar yr adnoddau bob amser. Ceir ardal awyr agored fawr ardderchog, sy'n cynnig cyfleoedd diddorol a chyffrous i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth drwy chwarae. Mae ganddynt amrywiaeth o rannau rhydd, treciau/sgwteri, ardal arddio, dringo a chegin fwd â digonedd o adnoddau.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon weledigaeth arloesol ar gyfer y dyfodol, a gaiff ei rhannu â'r staff, y rhieni a'r gwarcheidwaid. Maent yn cydymffurfio â rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Maent yn llwyddo i roi eu polisïau ar waith wrth redeg y feithrinfa, ac mae hyn yn amlwg iawn yn ystod COVID-19. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn rheoli eu staff yn dda iawn ac yn sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd drefnus. O ganlyniad, mae'r cymarebau staffio ac anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn rheoli'r staff yn effeithiol. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ac er mwyn nodi anghenion hyfforddiant. Mae'r staff yn canmol y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa, ac yn dweud wrthym eu bod yn teimlo fel teulu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhagweithiol wrth sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion gorau cyfredol, gan fodloni gofynion canllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Mae staff y feithrinfa wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant ar Brofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod (ACE) a'r ddyletswydd atal mewn perthynas â radicaleiddio a gweithgarwch terfysgol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cynnal archwiliadau cyson ac yn llwyddo i gadw cofnodion cyfredol. Mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a sefydliadau eraill mewn ffordd amserol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwnaethant nodi yn gyflym y newidiadau yr oedd eu hangen i wella arferion diogelwch er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Roedd hyn yn dilyn digwyddiad lle roedd aelod o staff wedi methu â goruchwylio plentyn yn briodol ar ddiwedd un o sesiynau'r feithrinfa.

Mae'r hunanwerthusiad a'r cynllun gweithredol yn bwrpasol ac yn cynnig adnodd ar gyfer creu cynllun gweithredu, a gaiff ei fonitro a'i archwilio'n barhaus gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa. Maent yn casglu ac yn adolygu barn staff y feithrinfa, y rhieni a'r plant er mwyn creu targedau a newidiadau i'r feithrinfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn dilyn proses recriwtio amserol a chadarn yn gyson cyn i aelodau o staff ddechrau yn y feithrinfa.

Mae'r partneriaethau yn ardderchog. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn darparu cylchlythyr misol i'r rhieni. Maent yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau staffio, newidiadau gweithredol yn ystod COVID-19, diwrnodau dathlu arbennig a chyfleoedd dysgu i'r plant. Mae rhieni'r plant sy'n defnyddio'r feithrinfa yn canmol y gwasanaeth yn fawr. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus iawn â rheolwyr a staff y feithrinfa. Maent yn teimlo eu bod yn cael gwybod yn llawn am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth. Maent yn teimlo bod y cyfathrebu rhwng rheolwyr a staff y feithrinfa a'r rhieni yn ardderchog. Mae'r rhieni yn teimlo'n gryf bod anghenion addysgol ac unigol eu plant yn cael eu diwallu'n llawn.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod labeli dwyieithog a ffotograffig ar adnoddau

A2. Sicrhau bod asesiadau risg ar gyfer casglu'r plant o'r ysgol yn y car a theithiau allan

A3. Sicrhau bod pob aelod o staff yn parhau i ddilyn gweithdrefnau ynglŷn â chasglu plant

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Mae angen i’r unigolyn cyfrifol sicrhau bod staff yn goruchwylio plant yn ofalus wrth iddynt gael eu casglu o'r feithrinfa. | Rheoliad 20 (1) (b) |

Nodwyd gennym fod risg wedi bod i lesiant y plant. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r darparwr i barhau i fonitro a dilyn camau uniongyrchol a gymerwyd i fynd i’r afael â hyn.

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/07/2021